Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date Ionawr 2004

Annwyl Gydweithiwr

**Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**
**CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**

Cytunodd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gynnal adolygiad polisi ym maes camddefnyddio sylweddau. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi tynnu sylw at y blaenoriaeth y mae wedi ei roi i geisio atal camddefnyddio sylweddau a'r triniaethau sydd ar gael ar gyfer y bobl hyn. Mae Cadeirydd ac Aelodau y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi cymderadwyo hyn ac wedi cytuno i gynnal adolygiad polisi cynhwysfawr yn y maes hwn. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl canlynol i'r Adolygiad yn ei gyfarfod 3 Rhagfyr 2003.

## Y Cylch Gorchwyl

Ystyried effeithiolrwydd y polisïau a'r trefniadau presennol i atal pobl rhag camddefnyddio sylweddau ac i'w trin gan roi sylw arbennig i:

*Atal*

- Nodi'r arfer gorau o ran addysg ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
- Asesu'r canllawiau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau y defnyddir yr arferion gorau mewn ysgolion a sefydliadau eraill.
- Asesu'r camau a gymerwyd i leihau'r risg o gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru trwy ddulliau ar wahân i addysgu (e.e. o fewn y meysydd cefnogi teuluoedd, tai, cyflogaeth)

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn/Tel 029 20 898409
GTN: 1208
Fax/Ffacs: 029 20 898021
E-bost/E-mail:
roger.chaffey@wales.gsi.gov.uk

*Triniaeth*

- Asesu a yw cynlluniau rhannu gofal a chynlluniau defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth ar gael ledled Cymru, a'r rhwystrau i recriwtio Meddygon Teulu a fferyllwyr i'r cynlluniau hyn.
- Nodi'r prif anawsterau a gaiff pobl sy'n ceisio derbyn triniaeth, yn enwedig y gwasanaethau dadwenwyno ac ailsefydlu.
- Nodi'r arferion gorau i ostwng yr amser sy'n rhaid ei aros cyn derbyn triniaeth.

*Grwpiau sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau*

- Nodi a yw'r gwasanaethau angenrheidiol ar gael i ddiogelu lles plant o fewn teuluoedd sy'n camddefnyddio sylweddau, ac i wella'r sefyllfa.
- Nodi anghenion grwpiau penodol, ac a oes gwasanaethau ar eu cyfer: plant, carcharorion sydd wedi eu rhyddhau a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

*Alcohol*

- Nodi anghenion pobl gyda phroblemau yn ymwneud ag alcohol, ac a oes gwasanaethau ar gael iddynt
- Asesu effaith y canolbwyntio sydd ar gyffuriau anghyfreithlon, er enghraifft gan y Swyddfa Gartref, ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio alcohol.
- Asesu effeithiolrwydd mentrau sy'n ymwneud â pholisïau sy'n mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol ar gael yn hawdd, ac yfed yn ormodol dros gyfnodau byr

**Gwahoddiad i gyfrannu**

Dymuna'r Pwyllgor eich gwahodd i gyfrannu at eu hystyriaethau trwy ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig yn rhoi amlinelliad o farn eich sefydliad ar y polisïau a'r rhaglenni sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ffeithiol fanwl a allai fod yn berthnasol. Nid oes fformat benodol ar gyfer cyflwyniadau, ac efallai y byddwch yn dymuno cynnig sylwadau ar bynciau o'ch dewis yn unig. Efallai yr hoffech ganolbwyntio ar y materion canlynol:

**ATAL**
*Rhaglenni Addysgol*

- Beth sy'n gweithio o ran addysg ar gamddefnyddio sylweddau? Rhowch sylwadau ar eich profiad a'r gwaith ymchwil a'r gwerthuso perthnasol.

- Nodwch unrhyw raglenni addysg ar gamddefnyddio sylweddau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd a rhowch sylwadau arnynt.

- Nodwch unrhyw raglenni addysgol ar gamddefnyddio sylweddau sydd ar gael i blant a phobl ifanc y tu allan i addysg brif ffrwd a rhowch sylwadau arnynt.

- Pa ganllawiau sydd ar gael i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni addysgol ar gamddefnyddio sylweddau? A yw'r canllawiau hyn yn ddefnyddiol?

- Beth ellid ei wneud i wella effeithiolrwydd addysg ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru?

*Ffactorau sy'n Dylanwadu*

- Beth yw'r prif ffactorau sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd rhywun yn camddefnyddio sylweddau? Rhowch sylwadau ar eich profiad a gwaith ymchwil perthnasol.

- Nodwch unrhyw wasanaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r ffactorau hyn a rhowch eich sylwadau.

**TRINIAETH**
*Swyddogaeth gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol wrth ddarparu triniaeth*

- Pa ardaloedd sydd yn rhan o gynlluniau rhannu gofal Meddygon Teulu yn eich ardal chi a/neu ledled Cymru?

- Beth yw'r rhwystrau i sefydlu cynlluniau rhannu gofal a sut y gellir eu goresgyn?

- Pa ardaloedd sy'n derbyn gwasanaeth defnyddio cyffuriau o dan oruchwyliaeth yn eich ardal chi a/neu ledled Cymru?

- Beth yw'r rhwystrau i sefydlu gwasanaethau defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth a sut y gellir eu goresgyn?

*Darparu gwasanaethau ailsefydlu a dadwenwyno ledled Cymru*

- Rhowch eich sylwadau ar y graddau y gellir cael gafael ar wasanaethau dadwenwyno.

- Rhowch eich sylwadau ar y graddau y gellir cael gafael ar wasanaethau ailsefydlu.

- Beth a ellir ei wneud i'w gwneud yn haws i ddefnyddio gwasanaethau dadwenwyno ac ailsefydlu?

**GRWPIAU SY'N CAEL EU HEFFEITHIO GAN GAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**
*Plant*

- Nodwch a rhowch sylwadau ar y gwasanaethau sy'n ceisio amddiffyn lles plant o deuluoedd sy'n camddefnyddio sylweddau, ac i wella eu sefyllfa

- Nodwch a rhowch sylwadau ar y gwasanaethau sydd ar gael i blant sy'n camddefnyddio sylweddau.

- Sut yr eir ati i enwi plant sy'n camddefnyddio sylweddau a phlant sydd â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau? Sut maent yn dod i gysylltiad â'r gwasanethau?

- Beth a ellir ei wneud i wella'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a'u teuluoedd?

*Carcharorion*

- Pa wasanaethau sydd ar gael ar gyfer carcharorion sy'n camddefnyddio sylweddau ar hyn o bryd, neu sydd wedi gwneud hynny.

- Sut mae carcharorion sydd wedi'i rhyddhau yn dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn?

- Beth a ellir ei wneud i wella gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer carcharorion a chyn-garcharorion?

*Pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl*

- Pa wasanaethau arbenigol sydd ar gael i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau a sydd â phroblemau iechyd meddwl?

- Sut y daw pobl i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn?

- Beth a ellir ei wneud i wella gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl?

**ALCOHOL**

- Pa wasanaethau sydd ar gael yn eich ardal chi ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio alcohol? Sut y mae pobl yn dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn?

- Pa effaith mae'r canolbwyntio sydd ar gyffuriau anghyfreithlon wedi ei gael ar ddarparu gwasanaethau i pobl sy'n camddefnyddio alcohol?

- Pa bolisïau sydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol ar gael yn hawdd, ac yfed yn ormodol dros gyfnodau byr? Pa mor effeithiol ydynt wedi bod wrth ddylanwadu ar y defnydd o alcohol?

**GORFODAETH**

- Pa effaith y mae arestio gwerthwyr cyffuriau a meddiannu cyffuriau yn ei gael ar y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon?

**CYNLLUNIO A CHYDGYSYLLTU**

- Sut y caiff y camau a gymerir i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ei gydgysylltu yn lleol a ledled Cymru

- Beth yw manteision a chyfyngiadau y system bresennol o gynllunio a chydgysylltu?


Ymhen amser, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno eich gwahodd i roi cyflwyniad llafar i ategu eich cyflwyniad ysgrifenedig.

**Cyhoeddi'r Ymatebion**
Os nad yw'r cyfranwyr yn gofyn am gadw eu cyflwyniadau'n gyfrinachol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi'r holl ymatebion er mwyn i'r cyhoedd graffu arnynt.

**Yr Amserlen**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw gyflwyniad y dymunwch ei wneud ataf i erbyn **dydd Gwener, 23 Ebrill 2004.**
Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau oddi wrth y rhai sydd ar y rhestr amgaeëdig. Yn ogystal, rhoddwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda gwahoddiad agored i eraill gyflwyno'u barn.

Yn gywir



**Roger Chaffey - Clerc - Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**